On our heads and our houses,
the blessing of God.
In our coming and going,
the peace of God.
In our life and believing,
the love of God.
At our end and new beginning,
the arms of God to welcome us
and bring us home.
Amen.

Iona Community

Ar ein pennau ac ar ein cartrefi,
bendith Duw.
Yn ein dyfod a'n myned,
heddwch Duw.
Yn ein bywyd a'n cred,
cariad Duw.
Pan ddaw ein diwedd a'n dechreuad newydd,
boed i freichiau Duw fod yno i'n croesawu
a'n harwain adref.
Amen.


O Gymuned Iona

St Asaph Diocesan Spirituality Group
Grŵp Ysbrydolrwydd Esgobaethol Llanelwy

ESGOBAETH LLANELWY
TYFU FFYDD • DOD Â GOBAITH • DANGOS CARIAD
GROW FAITH • BRING HOPE • DEMONSTRATE LOVE
DIOCESE OF ST ASAPH



# Praying for Peace
# Lent 2022



Fr Lawrence Lew O.P, *Glorious Reflection* Creative Commons, ww.lawrenceop.tumblr.com

# Gweddïo Dros Heddwch
# Garawys 2022

## The Universal Prayer for Peace

*This prayer is said each day at noon*
*by many people of all faiths and of none.*

Loving God,
Lead us from death to life,
from falsehood to truth.
Lead us from despair to hope,
from fear to trust.
Lead us from hate to love,
from war to peace.
Let peace fill our heart,
our world, our universe.
Amen.

## Gweddi dros Heddwch yn y Byd


*Dywedir y weddi hon bob dydd am hanner dydd*
*gan lawer o bobl o bob ffydd, ac o ddim*

Dduw cariadus,
Arwain ni o farwolaeth i fywyd,
o anwiredd a chelwydd at yr gwirionedd.
Arwain ni o anobaith i obaith,
Oddiwrth ofn i ymddiriedaeth.
Arwain ni o gasineb i gariad,
o ryfel i heddwch.
Boed i dangnefedd lenwi ein calonnau,
ein byd, a'n cyfanfyd.
Amen.



Ewch ymlaen i'r byd mewn heddwch.
Byddwch yn ddewr.
Daliwch yn dyn at yr hyn sy'n dda.
Na thaena ddrwg am ddrwg.
Cryfhewch y gwangalon.
Cefnogwch y gwan.
Helpwch y cystuddiol.
Dangoswch gariad at bawb.
Carwch a gwasanaethwch yr Arglwydd,
Gorfoleddwch yng ngrym yr Ysbryd Glân;
a bendith Duw hollalluog,
y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac aros gyda thi bob amser. Amen.

Llyfr Gweddi Gyffredin, 1928



Elizabeth Wang, Radiant Light T-1588-OL-V1

Go forth into the world in peace.
Be of good courage.
Hold fast that which is good.
Render to no one evil for evil.
Strengthen the fainthearted.
Support the weak.
Help the afflicted.
Show love to everyone.
Love and serve the Lord,
rejoicing in the power of the Holy Spirit;
and the blessing of almighty God,
the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. Amen.

Book of Common Prayer, 1928

Circle me, Lord.
Keep protection near
and danger afar.
Circle me, Lord.
Keep hope within.
Keep doubt without.
Circle me, Lord.
Keep light near
and darkness afar.
Circle me, Lord.
Keep peace within.
Keep evil out.

Cylchyna fi Arglwydd,
Cadw amddiffyn yn agos
a pherygl ymhell.
Cylchyna fi Arglwydd.
Cadw obaith i mewn
ac amheuaeth draw.
Cylchyna fi Arglwydd.
Cadw oleuni'n agos
a thywyllwch ymhell.
Cylchyna fi Arglwydd.
Cadw dangnefedd ynof
a drygioni draw.

© David Adam, *Visions of Glory*



# Praying for Ukraine
# Gweddïo dros Wcráin



Photo by Yehor Milohrodskyi on Unsplash

God of peace and justice,
we pray for the people of Ukraine today.
We pray for peace and the laying down of weapons.
We pray for those who fear for tomorrow,
that your Spirit of comfort would draw near to them.
We pray for those with power over war or peace,
for wisdom, discernment and compassion to guide their decisions.
Above all, we pray for all your precious children,
at risk and in fear, that you would hold and protect them.
We pray in the name of Jesus, the Prince of Peace.
Amen.

Archbishop Justin Welby
Archbishop Stephen Cotterill

# Bishop Gregory's Prayer for Ukraine



Steschke, commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=19215

Lord God, King of the Nations,
We beseech you to hear our prayers for peace,
and especially for Ukraine at this time.
May those who work for peace
be strengthened by your Spirit.
Turn the hearts of those inclined to violence,
and bring dismay upon all tyrants and warmongers.
Help us and the leaders of the nations
to know the ways which will bring peace,
and restore justice,
and deliver those who find themselves
on the frontline of war.

Lord in your mercy, **hear our prayer.**



*Bendith yn y Storm*

Ni allaf honni y gallaf dawelu'r storm
sydd wedi gafael ynot,
na thawelu'r tonnau
sy'n llifo drwy dy enaid,
sy'n torri yn erbyn dy galon ddolurus.
Ond byddaf yn camu i'r dyfroedd hyn,
yn sefyll gyda thi yn y storm hon,
yn galw am heddwch i ti yn y tonnau,
heddwch i ti yn y gwyntoedd,
heddwch i ti bob eiliad
fydd yn dy ganfod o fewn y storm. Jan Richardson

Boed i heddwch Arglwydd Crist fynd gyda thi,
i ble bynnag y bydd yn dy anfon.
Boed iddo dy dywys drwy'r diffeithwch,
a'th ddiogelu drwy'r storm.
Boed iddo ddod a thi adref gan lawenhau
ar y rhyfeddodau a ddangosodd i ti.
Boed iddo ddod a thi adref gan lawenhau
unwaith eto, i'n pyrth. O Gymuned Northumbria


Pixel2013@Pixabay


*Blessing in the Storm*

I cannot claim to still the storm
that has seized you,
cannot calm the waves
that wash through your soul,
that break against your fierce and aching heart.
But I will wade into these waters,
will stand with you in this storm,
will say peace to you in the waves,
peace to you in the winds,
peace to you in every moment
that finds you still within the storm.

© Jan Richardson
*The Painted Prayerbook*

May the peace of the Lord Christ go with you,
wherever he may send you.
May he guide you through the wilderness,
protect you through the storm.
May he bring you home rejoicing
at the wonders he has shown you.
May he bring you home rejoicing
once again into our doors.


© Northumbria Community
*Celtic Daily Prayer*



Jeusus Mafa, Cameroon
Creative Commons



# Gweddi'r Esgob Gregory dros Wcráin



Kyiv-Pechersk Lavra © Elizabeth Harrison

Arglwydd Dduw, Brenin y Cenhedloedd,
Ymbiliwn arnat i wrando ein gweddïau dros heddwch,
ac yn enwedig ar gyfer Wcráin ar hyn o bryd.
Bydded i'r rhai sy'n gweithio dros heddwch
gael eu nerthu gan dy Ysbryd.
Tro galonnau'r rhai sy'n dueddol o drais,
a dyga ddirmyg ar bob gormeswr a rhyfelgwn.
Cynorthwya ni ac arweinyddion y cenhedloedd
i adnabod y ffyrdd a ddaw â heddwch,
ac adfer gyfiawnder,
a rhyddha y rhai sy'n cael eu hunain
ar flaen y gad.

Arglwydd, yn dy drugaredd, **gwrando ein gweddi.**




Holy God,
We hold before you all who live close to war and conflict;
and all who live close to the threat of war and violence.
We remember especially at this time, people in Ukraine and Russia.
We pray for non-violent and peaceful resolutions of conflict.
Give to us all hearts of hospitality and sanctuary,
forgive us all our hostility and hatred.
Bring all people to the humanity you give us,
and to the reconciliation and healing for which you give your life.
Strengthen us all to work with you to build justice and peace,
reconciliation and healing,
in our hearts and homes,
in our streets, in all communities, neighbourhoods and nations.
Bless all who live lives for the peace and wellbeing of others,
and make their service fruitful.
In the name of Christ.
Amen.

Inderjit Bhogal
Honorary President of the Fellowship of Reconciliation



Arglwydd, gwna ni'n offerynau dy dangnefedd:
lle mae casineb, boed i ni hau cariad;
lle mae niwed, pardwn;
lle mae amheuaeth, ffydd;
lle mae digalondid, gobaith;
lle mae tywyllwch, goleuni;
lle mae tristwch, llawenydd;
O Feistr Dwyfol,
caniatâ ein bod nid yn gymaint yn ceisio cysur ond ei roi;
nid yn gymaint yn dymuno cael ein deall ond ceisio deall;
nid yn gymaint yn dymuno cael ein caru ond rhoi cariad,
oherwydd wrth roi y derbyniwn;
wrth faddau y derbyniwn faddeuant,
ac wrth farw y deffrown i fywyd tragwyddol.

St Francis o Assisi

Arglwydd, 'rwyt ti yn y byd,
dy bresenoldeb yn ei lanw.
Dy bresenoldeb yn dangnefedd.
Arglwydd, 'rwyt ti yn y lle hwn,
dy bresenoldeb yn ei lanw.
Dy bresenoldeb yn ffydd.
Arglwydd, 'rwyt ti yn fy mywyd,
dy bresenoldeb yn ei lanw.
Dy bresenoldeb yn obaith.
Arglwydd, 'rwyt ti yn fy nghalon,
dy bresenoldeb yn ei lanw.
Dy bresenoldeb yn gariad.

David Adam


Lord, make me an instrument of your peace
Where there is hatred let me sow love.
Where there is injury, pardon.
Where there is doubt, faith.
Where there is despair, hope.
Where there is darkness, light.
Where there is sadness, joy.
O Divine master,
grant that I may not so much seek to be consoled as to console
to be understood, as to understand.
to be loved. as to love;
For it is in giving that we receive
And it is in pardoning that we are pardoned
And it is in dying that we are born to eternal life.

attrib. St Francis of Assisi

You, Lord, are in the world
Your presence fills it
Your presence is peace.
You Lord are in this place
Your presence fills it
Your presence is faith.
You Lord are in my life
Your presence fills it
Your presence is hope.
You Lord are in my heart
Your presence fills it
Your presence is love.

© David Adam, *The Open Gate*







Duw Sanctaidd,
Daliwn ger dy fron bawb sy'n byw yn agos at wrthdaro a rhyfel:
a phawb sy'n byw yn nghysgod bygythiad rhyfel a thrais.
Cofiwn yn arbennig bobl Wcráin a Rwsia.
Gweddiwn am ddatrysiad di-drais a heddychlon i'r gwrthdaro.
Rho inni galonnau croesawgar i gynnig lloches,
maddau inni ein casineb a'n gelyniaeth.
Tyn pobl yn ôl at y ddynoliaeth a roist i ni
ac at y cymod a'r iachad y rhoddaist dy fywyd drostynt.
Nertha ni i weithio gyda thi i adeiladu cyfiawnder a heddwch,
cymod ac iachad,
yn ein calonnau a'n cartrefi,
yn ein strydoedd ac ym mhob cymuned, cymdogaeth a chenedl.
Bendithia bawb sy'n byw dros heddwch a lles eraill
a boed i'w gwasanaeth ddwyn ffrwyth.
Yn enw Crist.
Amen.

Inderjit Bhogal
Llywydd Anrhydeddus, Cymdeithas Cymod

Sanctaidd a grasol Dduw,
Gweddïwn dros bobl Wcráin a phobl Rwsia;
a dros eu gwleidyddion a'u harweinwyr.
Gweddïwn dros bawb sy'n ofnus;
y bydd dy freichiau tragywyddol yn eu dal a'u cynnal
yn yr amser hwn o ddychryn ac ofn mawr.
Gweddïwn dros bawb sy'n dal grym,
ac yn medru penderfynu rhwng bywyd a marwolaeth;
y bydd iddynt ddewis i bawb gael byw,
a derbyn bywyd yn ei holl gyflawnder.
Gweddïwn dros y rhai sy'n dewis rhyfela;
y bydd iddynt gofio i ti gyfarwyddo dy bobl
i droi eu cleddyfau yn geibiau, a cheisio heddwch.
Gweddïwn dros arweinwyr yr holl fyd;
y bydd iddynt gael eu hysbrydoli gan ddoethineb a dewrder Crist.
Yn anad dim, Arglwydd,
heddiw gweddïwn am heddwch i Wcráin.
A gofynnwn hyn yn enw dy Fab bendigedig, Iesu Grist.
Arglwydd trugarha. Amen.

Yr Eglwys Fethodistiadd



St Michael's Monastery, Kyiv
Ignas Kukenys, Wikimedia Commons



O Dduw, awdur tangnefedd a charwr cytundeb,
dy adnabod sy'n fywyd tragwyddol,
dy wasanaethu sy'n wir fraint:
Amddiffyn ni dy wasanaethyddion
rhag holl ymosocliadau ein gelynion,
fel y gallwn ymddiried yn dy nodded
a pheidio ag ofni gallu unrhyw wrthwynebydd;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Boreol Weddi, Ail Golect

Ymwêl â'r tŷ hwn, gweddïwn, O Arglwydd,
gyr ymaith ymhell ohono holl faglau'r gelyn;
arhosed dy angylion sanctaidd gyda ni
i'n gwarchod mewn tangnefedd,
a bydded dy fendith bob amser arnom;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Colect, Gweddi'r Nos



O God, the author of peace and lover of concord,
to know you is eternal life,
and to serve you is perfect freedom:
Defend us in all assaults of our enemies,
that we, surely trusting in your protection,
may not fear the power of any adversaries;
through Jesus Christ our Lord.
Amen.

Morning Prayer, Second Collect

Visit this place, O Lord,
and drive far from it all snares of the enemy;
let your holy angels dwell with us
to preserve us in peace;
and let your blessing be upon us always;
through Jesus Christ our Lord.
Amen.

Collect for Compline





Holy and Gracious God,
We pray for the people of Ukraine and the people of Russia;
for their countries and their leaders.
We pray for all those who are afraid;
that your everlasting arms hold them
in this time of great fear.
We pray for all those who have the power over life and death;
that they will choose for all people life,
and life in all its fullness.
We pray for those who choose war;
that they will remember that you direct your people
to turn our swords into ploughshares and seek for peace.
We pray for leaders on the world stage;
that they are inspired by the wisdom and courage of Christ.
Above all, Lord,
today we pray for peace for Ukraine.
And we ask this in the name of your blessed Son.
Lord have mercy.  Amen.

The Methodist Church



Mamkaklass on Pixabay

Heavenly Father,
Your will for your people is peace, not war.
Pour out on our world, especially in Eastern Europe,
your Spirit of compassion and solidarity.
Grant all those who believe in you
the strength to be close to those who suffer
and the courage to resolve their differences and conflicts
in truth and without resort to arms.
Be with the widow, the orphan, the refugee and the peacemaker.
Bind us all into the peace of your Kingdom.
Through Christ our Lord.
Amen.

Fr Damian Howard SJ, Provincial for the Jesuits in Britain

God who sees the weakness in acts of naked aggression;
God who feels the fear in moments of acute helplessness:
cure this warring madness,
and shield all who fall in harm's way.
Leach the poison from the mind
that thinks strength is shown
in a bullying force.
And may an equal strength in solidarity
give resolve to those whose aim is to protect, and respect,
not just the ones we call our own,
but all with whom we can share
a better, more peaceful world.
Amen.

Corrymeela Community



## Other Prayers for Peace
## Gweddiau Eraill am Heddwch

Almighty God,
from whom all thoughts of truth and peace proceed;
kindle we pray, in the hearts of all, the true love of peace;
and guide with your pure and peaceable wisdom
those who take counsel for the nations of the earth;
that in tranquillity your kingdom may go forward,
till the earth is filled with the knowledge of your love:
through Jesus Christ our Lord.
Amen.

Francis Paget (1851–1911)
*For the Peace of the World*

Hollalluog Dduw,
ffynhonnell pob meddwl o wirionedd a hedd;
ennyn yng nghalon pawb wir gariad at heddwch;
ac o'th ddoethineb pur a heddychlon
arwain y rhai sy'n ymgynghori dros genhedloedd y byd;
fel yr hyrwyddir dy deyrnas mewn tangnefedd,
nes llenwi'r ddaear â gwybodaeth o'th gariad:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

*Dros Heddwch y Byd*